Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

CORFFORAETH ADDYSG BELLACH
COLEG CAERDYDD A'R FRO

Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Grŵp – Llywodraethu Corfforaethol/ Clerc y Gorfforaeth 2017-18

I'w gyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 12 Rhagfyr 2018 am 9.30am

Awdur: Louise Thomas, Clerc y Gorfforaeth, 26 Tachwedd 2018

Cyflwyniad
Y canlynol yw Adroddiad Blynyddol Clerc y Gorfforaeth ar gyfer y flwyddyn rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018. Llywodraeth Cymru sydd wedi gofyn am yr Adroddiad hwn ar gyfer y Gwasanaethau Sicrwydd a Llywodraethu Darparwyr (PAGS).

Cefais i, Louise Thomas, fy mhenodi'n Glerc i'r Gorfforaeth ar 25 Mai 2012 ac rwyf wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ers y dyddiad hwn.

Mae'n rhoi cryn dipyn o sicrwydd i'r Gorfforaeth bod ei gweithgareddau wedi cael eu cyflawni yn unol â rhoi prosesau llywodraethu ar waith fel y nodir yn Atodlen 1 yr Offeryn Llywodraethu sydd wedi'i nodi yng Nghorfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro. Diwygiwyd y rhain am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2015, yn dilyn proses ailstrwythuro Corff Llywodraethu'r Coleg, ac maent wedi cael eu diwygio wedyn a'u cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2018 er mwyn ystyried caffael ACT.

Adroddiad
Ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, roedd y Corff Llywodraethu'n cynnwys cyfanswm o 30 o aelodau, ac, yn unol â'r Offerynnau Llywodraethu, roedd y casgliad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018 fel a ganlyn:

Llywodraethwyr Llawn (heb gynnwys Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol, Prif Weithredwr y Grŵp, Staff na Myfyrwyr)	11
Llywodraethwyr Cyfetholedig	5
Llywodraethwyr Cymunedol (heb gynnwys y 3 Llywodraethwr Cyfetholedig)	9
Aelodau o'r Awdurdod Lleol (Cynghorau Caerdydd a'r Fro)	2
Llywodraethwyr Staff (Cymorth Academaidd/Busnes)	2
Swyddog Sabothol/Llywodraethwyr Myfyrwyr	2
Prif Weithredwr y Grŵp	1
Pwyllgor Cydnabyddiaeth Aelodau Annibynnol	1

Yn ogystal â hyn, roedd yr Aelodau Pwyllgor Cyfetholedig ar bob Pwyllgor fel a ganlyn:

Pwyllgor Archwilio	4
Pwyllgor Cyllid, Ystadau ac Adnoddau Dynol	0
Cwricwlwm, Ansawdd a Materion Myfyrwyr	2

(Nodwch fodd bynnag fod 1 Llywodraethwr Cyfetholedig yn eistedd ar 2 Bwyllgor, sef y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor CQSA, ac felly cyfanswm nifer y Llywodraethwyr Cyfetholedig ar gyfer cyfnod yr Adroddiad oedd 5).

Gwahoddwyd y Llywodraethwyr i gyd i adnewyddu eu tymor gwasanaethu tair blynedd, i ailddechrau o 1 Awst 2017 tan 31 Gorffennaf 2020. Penderfynodd pob un i aros, ac eithrio Hannah Pudner, a benderfynodd y byddai ei rôl gydag elusen ryngwladol yn ei gwneud yn anodd mynychu cyfarfodydd wrth symud ymlaen. Newidiodd Aliya Mohammed ei statws o Lywodraethwr Cyfetholedig i Lywodraethwr Bwrdd Cymunedol.

Mae holl aelodau'r Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â'r gofynion cymhwysedd ac ar ôl cael eu penodi mae pawb yn cael hyfforddiant cynefino llawn gan y Pennaeth Grŵp – Llywodraethu Corfforaethol/Clerc.

Mae'r Pennaeth Grŵp – Llywodraethu Corfforaethol/Clerc yn cynnal ac yn diweddaru Cofrestr Buddiannau Aelodau'r Gorfforaeth a Deiliaid Swyddi Uwch ac mae ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

Mae'r Pennaeth Grŵp – Llywodraethu Corfforaethol/Clerc yn cynnal ac yn diweddaru Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch (yn unol â'r Cod Ymddygiad, a ddiwygiwyd ac a gymeradwywyd am yr eildro ym mis Medi 2018) Aelodau'r Gorfforaeth a Deiliaid Swyddi Uwch ac mae ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio

Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw daliad wedi'i wneud fel cydnabyddiaeth i aelodau'r Corff Llywodraethu am eu gwasanaethau fel aelodau yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018.

Hysbysiad o ddyfarnu unrhyw gontract am gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethu neu i unrhyw sefydliad y mae aelod yn gysylltiedig ag ef
Aelod Cysylltiedig - Iestyn Morris - Capital Law £29,010 *Gallaf gadarnhau nad oedd Mr Morris yn rhan o'r broses o gymeradwyo'r contract hwn.*

Cyfarfodydd

Gallaf gadarnhau bod holl gyfarfodydd y Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau yn rhai â chworwm ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018.

Roedd cyfarfodydd misol y Corff Llywodraethu fel a ganlyn:

- 5 Medi 2017
- 3 Hydref 2017
- 7 Tachwedd 2017
- 12 Rhagfyr 2017
- 16 Ionawr 2018
- 6 Chwefror 2018
- 6 Mawrth 2018
- 17 Ebrill 2018
- 9 Mai 2018
- 5 Mehefin 2018
- 3 Gorffennaf 2018

Gallaf hefyd gadarnhau bod y Corff Llywodraethu wedi cael adroddiadau ariannol o leiaf unwaith ym mhob tymor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018.

Trefnodd Clerc y Gorfforaeth Ddiwrnod Strategaeth Llywodraethwyr ar 12 Mehefin 2018 a gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr Llawn a Chyfetholedig, a hefyd Marian Jebb, Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd Pwyllgor canlynol ar y dyddiadau canlynol:

Pwyllgor Archwilio
- 21 Medi 2017
- 30 Tachwedd 2017
- 27 Mawrth 2018
- 14 Mehefin 2018

Pwyllgor Cwricwlwm, Ansawdd a Materion Myfyrwyr
- 28 Medi 2017
- 23 Tachwedd 2017 (Cymeradwyo'r Adroddiadau Hunanasesu ar gyfer y Grŵp)
- 15 Mawrth 2018
- 20 Mehefin 2018

Pwyllgor Cyllid, Ystadau, Masnachol ac AD
- 19 Hydref 2017
- 24 Tachwedd 2017
- 25 Ionawr 2018
- 22 Mawrth 2018
- 28 Mehefin 2018

Pwyllgor Cydnabyddiaeth
- 23 Hydref 2017

Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu
- 23 Hydref 2017

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (2017/18)
- 12 Rhagfyr 2018

Bwrdd Cymunedol
- 15 Tachwedd 2017
- 13 Mehefin 2018

Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae Geraint Evans wedi parhau fel Cadeirydd y Gorfforaeth a Bart Haines fel Is-Gadeirydd. Bydd y ddau'n aros tan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2020.

Hyfforddiant a Digwyddiadau i Lywodraethwyr
Mae pob Llywodraethwr newydd yn cymryd rhan mewn cyfnod sefydlu ffurfiol gyda'r Clerc ac mae'n cynnwys sesiynau hyfforddi gorfodol mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Diogelu.

Mae'r hyfforddiant ffurfiol a gynhaliwyd ar gyfer y Llywodraethwyr fel a ganlyn:

- Rheoli Risg – Ian Howse, Deloitte (Prif Fwrdd)
- Safonau'r Gymraeg – Rhianwen Davies (Prif Fwrdd)
- Cymorth a Lles y Dysgwyr, Effaith ar Ddysgwyr Agored i Niwed – James Donaldson (Pwyllgor CQSA)
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) – Mark Roberts (Pwyllgor FECHR)
- Prentisiaethau a'r Ardoll – Andy Whitcombe (Bwrdd Cymunedol)
- Cytundeb Swyddi Cymunedol Dinasyddion y Bae – Ali Abdi (Bwrdd Cymunedol

Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr i'r Seremoni Wobrwyo Flynyddol ar 12 Hydref 2017, a gynhaliwyd ar gampws Parêd y Gamlas. Gwahoddwyd Cadeiryddion Pwyllgorau ac aelodau'r CQSA i'r Gwobrau'r QSA ar 14 Mawrth 2017.

Roedd Mr Geraint Evans, Mr David Reeves a Hannah Pudner yn aelodau o Gydbwyllgor Eastern High a Choleg Caerdydd a'r Fro, a gyfarfu'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Mae Bwrdd Strategaeth ACT wedi cael ei ffurfio ac roedd sesiynau cynefino wedi cael eu cynnal erbyn diwedd mis Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfarfodydd ffurfiol wedi'u cynnal ac maent wedi'u cynllunio i fwrw ymlaen yn 2018/19.

Gweithgareddau'r Clerc a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Roedd gweithgareddau'r Clerc ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn:

- Presenoldeb rheolaidd yn Rhwydwaith Clercod AB Cymru a'r cyfarfodydd Preswyl drwy gydol y flwyddyn
- Trefnu cinio Nadolig Blynyddol y Llywodraethwyr i ddathlu llwyddiant dysgwyr a staff gydag aelodau o'r Corff Llywodraethu
- Mynd i'r cyfarfodydd uwch reolwyr mewnol canlynol ar ran y Corff Llywodraethu:
    - Y Bwrdd Safonau Ansawdd
    - Y Pwyllgor Diogelu
    - Y Bwrdd Academaidd AU
- Mynd i'r digwyddiadau canlynol:
    - Menywod ar Fyrddau (gwahoddiad gan PwC)
    - Ardoll Prentisiaethau
    - Clwb Brecwast Caerdydd (gwestai Effective Communication)
    - Gwobrau QSA
    - Lansiad Gwesty'r Exchange gyda'r Cadeirydd
- Gweithio ar draws Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro er mwyn cymhathu ACT i strwythur Llywodraethu'r Coleg

Mae'r Clerc yn meddu ar Dystysgrif CIPFA a Diploma mewn Llywodraethu Corfforaethol.

Aelodau'r Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau
Edrychwch ar yr Atodiad sydd ynghlwm i weld yr aelodau tan 31 Gorffennaf 2017.

Y CORFF LLYWODRAETHU – Mai 2018

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

CQSA – Danny Saunders (Cadeirydd Pwyllgor)
Francis Cowe
ARCHWILIO – Marlene Davies (Cadeirydd Pwyllgor)
David Austin
FECHR – Geraint Evans (Cadeirydd Pwyllgor, Cadeirydd y Corff Llywodraethu)
David Reeves
Bart Haines (Is-gadeirydd y Corff Llywodraethu)
Richard Thomas
Iestyn Morris
Mike James
David James

Llywodraethwyr Awdurdod Lleol:
y Cynghorydd Sarah Merry (Caerdydd)
y Cynghorydd Bob Penrose (Bro Morgannwg)

Myfyriwr Lywodraethwyr:
Silviana Rizea

Staff Lywodraethwyr:
Rhianwen Davies
Kevin Robinson

PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL
4 Aelod

Geraint Evans (Cadeirydd)
Bart Haines
Danny Saunders
David Reeves
+ Aelod Annibynnol (yr Athro Tony Chapman)

PWYLLGOR CWRICWLWM, SAFONAU, A MATERION MYFYRWYR (CQSA)

Danny Saunders (Cadeirydd)
Francis Cowe
Mike James
y Cynghorydd Sarah Merry
y Cynghorydd Bob Penrose

Staff Llywodraethwyr:
Rhianwen Davies
Kevin Robinson

Myfyriwr Lywodraethwr:
Silviana Rizea

Aelodau Cyfetholedig
Brenig Davies
Claire Morgan

Llywodraethwr ACT *i'w gadarnhau*

Staff Lywodraethwr a Myfyriwr Lywodraethwr ACT *i'w cadarnhau*

PWYLLGOR CHWILIO A LLYWODRAETHU
4 Aelod

Cadeiryddion y Pwyllgorau

BWRDD CYMUNEDOL

Kay Martin (Cadeirydd)
Michell Hiller-Forster (Is-gadeirydd)
Aliya Mohammed
Azza Ali / Ali Abdi / Roda Hussein
Heather Ferguson / Shameem Nawaz / Mohammed Alamgir / Cat Burton / Laurence Kahn

Myfyriwr Lywodraethwr:
Silviana Rizea

Staff Lywodraethwyr:
Rhianwen Davies
Kevin Robinson
Peter Elmi (Cynrychiolydd Staff)
Staff Lywodraethwr a Myfyriwr Lywodraethwr ACT

PWYLLGOR ARCHWILIO

Marlene Davies (Cadeirydd)
David Austin

Aelodau Cyfetholedig
Vivienne Compton
Laura Farrow
Donna Merrick
Brenig Davies

BWRDD STRATEGAETH ACT

Julian Baker
Margaret Foster
Steve Murphy
John Taylor

David Reeves (FECHR)
Danny Saunders (Cadeirydd a CQSA)
Silviana Rizea (Myfyriwr Lywodaethwr)
Susan Hatch (Cynrychiolydd Staff)

Heather Ferguson (CB)

PWYLLGOR CYLLID, YSTADAU, MASNACHOL AC ADNODDAU DYNOL (FECHR)

Geraint Evans (Cadeirydd)
David Reeves
Bart Haines
Iestyn Morris
Richard Thomas
Mike James
David James

Staff Lywodraethwyr
Rhianwen Davies
Kevin Robinson

Aelodau Cyfetholedig

Llywodraethwr ACT *i'w gadarnhau*